**15th May 2019**

## Llannon Community Council

### Minute no. 16 – Members Present

**Councillors**:

D R Thomas
E Dole
P C Edwards
K Thomas
N Holman
D Snaith
A L Williams
M Jones
E W James
L M Davies
D Jones
G Jones
S Acciaioli

| Chairman Councillor N Holman presided over the meeting |
| --- |

**Also present:** The Clerk and the Responsible Finance Officer (RFO).

### Minute no. 17 – Apologies for Absence

An apology for absence was received from Cllr A Owens.

### Minute no. 18 – Declarations of Interest

Declarations of Interest were received from Councillor D Jones as she is a County Councillor and sits on the Planning Committee and Councillor E Dole as leader of the County Council.

### Minute no. 19 – Matters Arising from Minutes

The Clerk provided a report on the following matters:

a) Minute no. 345 – Strimmer Attachment
The Clerk reported that as requested, the Council had proceeded to hire a strimmer to test the suitability of the attachment for use in the cemetery and subsequently purchased a strimmer to enable the efficient cutting of grass around the headstones.

It was noted an instruction has been given for the purchase of insulated jugs for use at the hall.

b) Minute no. 347 – Hanging Baskets
It was reported that a request has been received from the Gwernllwyn Nursing Home for the provision of baskets on top of the railings at this location, the cost being borne by the owner of the home. Resolved to approve the Council in acquiring the baskets and plants on behalf of Gwernllwyn.

**Mai 15$^{fed}$ 2019**

**Cyngor Cymuned Llannon**

**Cofnod rhif 16 – Aelodau'r Bresennol**

**Cynghorwyr**:

D R Thomas
E Dole
P C Edwards
K Thomas
N Holman
D Snaith
A L Williams
M Jones
E W James
L M Davies
D Jones
G Jones
S Acciaioli

| Y Cadeirydd, y Cynghorydd N Holman oedd yn llywyddu ar y cyfarfod |
|---|

**Hefyd yn bresennol:** Y Clerc a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol (SCC).

**Cofnod rhif 17 – Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddiwrth y Cynghorydd A Owens.

**Cofnod rhif 18 – Datganiadau o Fuddiant**
Derbyniwyd datganiadau o fuddiant oddiwrth y Cynghorydd D Jones gan ei bod yn Gynghorydd Sir ac yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio, a'r Cynghorydd E Dole gan taw ef yw Arweinydd y Cyngor Sir.

**Cofnod rhif 19 – Materion yn Codi o'r Cofnodion**
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynghylch y materion canlynol:

c) Cofnod rhi**f** 345 – Teclyn ar gyfer y strimwr
Dywedodd y Clerc bod y Cyngor, yn unol â'r cais a wnaethpwyd, wedi llogi strimwr i wirio addasrwydd y teclyn at ddefnydd yn y fynwent ac wedi mynd ymlaen i brynu'r cyfryw beiriant er mwyn galluogi'r gweithwyr i dorri'r glaswellt o gwmpas y cerrig bedd mewn ffordd effeithlon.

Nodwyd bod gorchymyn wedi'i wneud i brynu jygiau inswleiddiedig i'w defnyddio yn y neuadd.

d) Cofnod rhif 347 – Basgedi Crog
Soniwyd bod cais wedi'i dderbyn oddiwrth Cartref Nyrsio'r Gwernllwyn i osod basgedi ar ben y reilins yn y lleoliad hwn, a byddai perchennog y cartref yn talu amdanynt. **Penderfynwyd** cymeradwyo bod y Cyngor yn caffael y basgedi a'r planhigion ar ran y Gwernllwyn.

**Minute no. 20 – Kew Gardens**
Cllr L Davies reported that she had received complaints that there are bricks missing to the wall near the bus shelter at Kew Gardens. As this is a County Council matter, it was **resolved** to refer this matter to Cllr D Jones and Cllr E Dole.

**Minute no. 21 – CCTV Memorial Gardens**
**Resolved** to purchase a new CCTV sign for the memorial gardens.

**Minute no. 22 – Defibrillator**
The Clerk reported that it had been identified that the Welsh Ambulance Service has produced signage for the type of telephone kiosks which have been used for this installation. **Resolved** that Cllr N Holman will investigate the availability of the signage and also speak to the Welsh Ambulance Service to ascertain if codes have been provided for the boxes.

**Minute no. 23 – PACT – Policing Matters**
**Resolved** to remove from the agenda reference to the PACT meetings as these have since stopped. The Clerk was instructed to send the Police an invitation to attend at the next Council meeting.

**Minute no. 24 – Cross Hands Park**
The Clerk provided a report on recent incidents of vandalism at the park. It appears that the park is being regularly used as a meeting place for teenagers where they eat takeaway meals and drinks which causes a significant litter problem. There have been a few incidents of vandalism which have required significant work by the Council caretakers. This was noted with concern by the Councillors.

**Minute no. 25 – Finance Reports**
It was noted that due to the need to close off the year end accounts in readiness for the annual audit, it was not possible to provide the full list of standard reports this month. It was **resolved** to approve the reports on proposed expenditure as previously circulated to members.

**Minute no. 26 – Cllr D Jones**
Councillor D Jones left the meeting and did not return.
.
**Minute no. 27 – Land Use Planning – Town and Country Planning Act**
**(a) Proposed Development**
**Resolved that** the following applications be noted onto the minutes.
**Reason:** Members did not request that observations/objections be conveyed to the County Planning Authority in respect of the proposed developments.

**Resolved** to send out all planning applications to Councillors prior to meetings.

| | |
|---|---|
| S/38842 | Proposed covered seating area/band stand at former Ysbyty Mynydd Mawr, Upper Tumble. Mr Rylan Lopez. |
| S/38841 | Change of use to section of ground floor to allow for new coffee shop at the Evolution Health and Fitness Centre, Cross hands. Wills Fresh Food and Coffee Daily Ltd. |

**Cofnod rhif 20 – Gerddi Kew**
Dywedodd y Cynghorydd L Davies ei bod wedi derbyn cwynion i ddweud bod briciau yn eisiau o'r wal ger y gysgofan fws yng Ngerddi Kew. Gan fod hyn yn fater i'r Cyngor Sir, **penderfynwyd** cyfeirio'r mater at y Cynghorydd D Jones a'r Cynghorydd E Dole.

**Cofnod rhif21 – Camerau Teledu Cylch Cyfyng – y Gerddi Coffa**
**Penderfynwyd** prynu arwydd Camerau Teledu Cylch Cyfyng newydd i'r gerddi coffa.

**Cofnod rhif 22 – Diffibriliwr**
**Dywedodd** y Clerc bod Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi cynhyrchu arwyddion ar gyfer y ciosgau ffôn a ddefnyddir at y math yma o osodiad. **Penderfynwyd** bod y Cynghorydd N Holman yn archwilio i argaeledd yr arwyddion ac hefyd yn trafod gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i weld os oes codau wedi'u darparu ar gyfer y ciosgau.

**Cofnod rhif 23 – PACT – Materion yr Heddlu**
**Penderfynwyd** tynnu unrhyw gyfeiriad at gyfarfodydd PACT oddiar yr agenda gan fod y cyfarfodydd hyn wedi dod i ben. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Heddlu i'w gwahodd i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.

**Cofnod rhif 24 – Parc Cross Hands**
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynghylch y fandaliaeth diweddar a fu yn y parc. Mae'n ymddangos bod ieuenctid yn eu harddegau yn cwrdd yn gyson yn y parc, lle y byddant yn bwyta prydau bwyd parod ac yn yfed diodydd, ac yn achosi problemau sbwriel sylweddol. Mae ambell achos o fandaliaeth wedi golygu cryn dipyn o waith i ofalwyr y Cyngor. Nodwyd y newyddion hyn gyda phryder gan y Cynghorwyr.

**Cofnod rhif 25 – Adroddiadau Ariannol**
Nodwyd bod angen cau cyfrifon diwedd y flwyddyn er mwyn paratoi ar gyfer yr archwiliad blynyddol. Nid oedd hi'n bosib cyflwyno rhestr lawn o adroddiadau safonol y mis hwn. **Penderfynwyd** cymeradwyo'r adroddiadau ynghylch y gwariant arfaethedig fel y'u dosbarthwyd i'r aelodau yn flaenorol.

**Cofnod rhif26 – Y Cynghorydd D Jones**
Gadawodd y Cynghorydd D Jones y cyfarfod ar yr adeg hon, ac ni ddychwelodd.

**Cofnod rhif 27 – Cynllunio Defnydd Tir – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref**
**Penderfynwyd** bod y ceisiadau canlynol yn cael eu nodi yn y cofnodion.

**(a) Datblygiad Arfaethedig**

**Rheswm**: Nid oedd yr aelodau wedi gofyn i'r arsylwadau/gwrthwynebiadau mewn perthynas â'r datblygiadau arfaethedig gael eu cyfleu i Awdurdod Cynllunio y Sir.

**Penderfynwyd** anfon yr holl geisiadau cynllunio at y Cynghorwyr cyn y cyfarfodydd.

| | |
|---|---|
| S/38842 | Ardal eistedd dan-do/ stand band arfaethedig yn hen Ysbyty Mynydd Mawr, Tymbl Uchaf, Y Tymbl. Mr Rylan Lopez. |
| S/38841 | Newid defnydd rhan o'r llawr gwaelod i ganiatáu adeiladu siop goffi newydd yng Nghanolfan Iechyd a Ffitrwydd Evolution, Cross Hands. . Wills Fresh Food and Coffee Daily Ltd. |

**b) Decision Notices Granted**
**Resolved that** the following applications be noted onto the minutes.
None received.

**(c) Decision Notices Refused**
None received.

**(d) Decision Notices Appealed**
None received.

**Minute no. 28 – Adverse Possession CYM 757751**
The Clerk provided a report on discussions with the applicant who has submitted a claim for adverse possession of the land at the rear of 19 Bethesda Road, Tumble. It was **resolved** that the Council wishes to proceed with the transfer of the land on behalf of the community and will cover any costs in relation to the transaction. The Clerk was requested to make contact with the owners of the site advising them of this interest.

**Minute no. 29 – CDO Report**
The CDO provided an overview on her previously circulated report. The following matters were considered:

Wellbeing Annual Report
It was noted that a copy of the draft Wellbeing Annual Report has been circulated to all members for consultation. It was agreed that a meeting of the Annual Report working group will be convened on May 21st. Further agreed that a Personnel Committee will be convened to follow on the same evening.

Pride in Your Garden
It was reported that the competition is being organised again with the deadline for entries being the end of June.

Skateboard Park Development
It was reported that the RIOT group has expressed concerns that there is no progress being made with this project and there is a risk that the project can fail if members of the group lose interest due to inactivity. It was agreed that there is a need for the scheme to be progressed with some urgency sand it was resolved to fund the cost of a Development Officer up to a maximum cost of £2500 until such time as there is a decision as to whether the County Council grant can fund this appointment.

Police Commissioner's Fund
The CDO reported that an invite had been received to make an application to the Police Commissioner's Fund for grant funding. **Resolved** to make an application for the provision of CCTV at Cross Hands Park to attempt to resolve the on-going vandalism at this location.

Lounge Improvements
The CDO outlined that the majority of the improvements to the lounge had been completed. Members expressed concern regarding the poor quality of the lighting in the room and suggested that this needs to be improved. The CDO reported that the Council is investigating an option for the lighting to be renewed as part of a scheme

**(b) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Gymeradwy-wyd**
Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau.

**(c) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Wrthodwyd**

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a wrthodwyd.

**(ch) Hysbysiadau o Benderfyniadau a Apeliwyd**

Ni dderbyniwyd unrhyw hysbysiadau o benderfyniadau a apeliwyd

**Cofnod rhif 28 – Meddiannaeth Wrthgefn CYM 757751**
Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynghylch y trafodaethau gyda'r ymgeisydd sydd wedi cyflwyno cais am feddiannaeth wrthgefn o'r tir y tu ôl i 19 Heol Bethesda, Y Tymbl. **Penderfynwyd** bod y Cyngor am fwrw ymlaen gyda throsglwyddiad y tir ar ran y gymuned, a bydd y Cyngor yn talu unrhyw gostau sydd ynghlwm wrth y gweithrediad. Gofynnwyd bod y Clerc yn cysylltu â pherchnogion y tir i'w hysbysu o'r diddordeb hwn.

**Cofnod rhif 29 – Adroddiad y SDC**
Cafwyd trosolwg gan y SDC o'i hadroddiad, a ddosbarthwyd yn flaenorol. Ystyriwyd y materion canlynol:

Adroddiad Llesiant Blynyddol
Nodwyd bod copi drafft o'r Adroddiad Llesiant Blynyddol wedi'i ddosbarthu i bob aelod er mwyn iddynt ymgynghori arno. Cytunwyd cynnal cyfarfod o'r gweithgor Adroddiad Blynyddol ar Fai 21ain ac hefyd cytunwyd cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Personél i ddilyn ar yr un noson.

Balchder yn eich Gardd
Dywedwyd bod y gystadleuaeth hon yn cael ei threfnu eto; y dyddiad cau ar gyfer gwneud ceisiadau yw diwedd mis Mehefin.

Datblygu'r Parc Sglefr-fyrddio
Dywedwyd bod y grŵp RIOT wedi mynegi pryder nad oedd unrhyw gynnydd i'w weld gyda'r prosiect hwn, a bod risg y byddai'r prosiect yn methu os byddai'r aelodau yn colli diddordeb ynddo oherwydd anweithgarwch. Cytunwyd bod angen i'r prosiect fynd yn ei flaen yn ddi-oed, ac fe benderfynwyd ariannu Swyddog Datblygu ar gost o hyd at uchafswm o £2500, hyd nes y bydd y Cyngor Sir yn gwneud y penderfyniad i gynnig grant i ariannu'r swydd neu beidio.

Cronfa Comisiynydd yr Heddlu

Dywedodd y SDC bod gwahoddiad wedi'i dderbyn i wneud cais am arian grant i Gronfa Comisiynydd yr Heddlu. **Penderfynwyd** cyflwyno cais am arian i dalu am gamerâu teledu cylch cyfyng ym Mharc Cross Hands mewn ymgais i ddatrys y fandaliaeth parhaus yn y lleoliad hwn.

Lounge Improvements
The CDO outlined that the majority of the improvements to the lounge had been completed. Members expressed concern regarding the poor quality of the lighting in the room and suggested that this needs to be improved. The CDO reported that the Council is investigating an option for the lighting to be renewed as part of a scheme linked to the transfer of the electricity provider. **Resolved** to authorise the instructionof a local contractor to improve the lighting in the event that the alternative funding is not realised.

Alarm System
A report was provided on a problem with the alarm system at Tumble Hall going off late at night. It was noted that it is inappropriate for an individual to have to enter the hall late at night where it is suspected that someone may have broken in. It was agreed that it would be appropriate to upgrade the cctv system such that it would be possible to view the cctv cameras on either a computer or a phone as opposed to staff having to enter the premises.

**Minute no. 30 –Tumble Hall**

a) Licensable Activity
**Resolved to note** that the following licensable activities were ratified by the Council.
**Reason** – to comply with the terms of premises license (Licensing Act 2003)

| | |
|---|---|
| 17th May | Country & Western night |
| 18th May | Eagles tribute show |
| 19th May | Bridge Club |
| 24th May | Carnival Queen event |

**Minute no. 31 – Telephone System**
Cllr G Jones reported that he is currently investigating a system which allows for up to 50 numbers to be allocated to the hall. It was agreed to proceed with a free trial which is available for a month.

**Minute no. 32 – County Councillor Reports**
Cllr E Dole reported on the following matters:

- The County Council is proceeding with the redevelopment of the bus stop at Rhosyderi.
- A presentation was made on the Women's OVO race which is being organised in the next month. A length of bunting and a green bike will be provided for the community in order to promote the event.

Cllr D Jones reported the following:

- The banner promoting the OVO race has been displayed in Llechyfedach and other schools in the community.
- A meeting has been convened at Cross Hands roundabout with Welsh Government and the Police next Friday to discuss the anti-social behaviour at this location.

Gwelliannau yn y Lolfa
Dywedodd y SDC bod y mwyafrif o'r gwelliannau yn y lolfa wedi'u cwblhau. Roedd yr aelodau wedi mynegi eu consyrn ynghylch ansawdd gwael y golau yn yr ystafell gan awgrymu bod angen gwella hyn. Dywedodd y SDC bod y Cyngor yn archwilio opsiwn i adnewyddu'r goleuadau fel rhan o gynllun sydd ynghlwm wrth newid ein darparwr trydan. Os na fydd y cyllido amgen yn cael ei wireddu, **penderfynwyd** awdurdodi contractwr lleol i wella'r goleuadau.

System Larwm
Cafwyd adroddiad ynghylch problem gyda'r system larwm yn Neuadd y Tymbl yn canu yn hwyr yn y nos. Nodwyd ei fod yn anaddas bod rhaid i unigolyn fynd i'r neuadd yn hwyr yn y nos pan y drwgdybir bod rhywun wedi torri i mewn. Cytunwyd y byddai'n addas uwchraddio'r system teledu cylch cyfyng er mwyn ei gwneud hi'n bosib i wylio'r camerau teledu cylch cyfyng ar naill ai gyfrifiadur, neu ffôn, yn hytrach na bo gofyn i aelod o staff ymweld â'r safle.

**Cofnod rhif 30 – Neuadd y Tymbl**
a) Gweithgarwch Sydd Angen Trwydded
**Penderfynwyd nodi** bod y gweithgareddau canlynol sydd angen trwydded wedi cael eu cadarnhau gan y Cyngor.

**Rheswm** – i gydymffurfio â thelerau trwydded y safle (Deddf Trwyddedu 200

| | |
|---|---|
| Mai 17eg | Noson Canu Gwlad |
| Mai 18fed | Sioe deyrnged i'r Eagles |
| Mai 19eg | Clwb Bridge |
| Mai 24ain | Digwyddiad Brenhines y Carnifal |

**Cofnod rhif 31 – System Ffonau**
Dywedodd y Cynghorydd G Jones ei fod ar hyn o bryd yn archwilio system ffôn sy'n caniatáu dyrannu hyd at 50 rhif i'r neuadd. Cytunwyd i fwrw ymlaen gyda chyfnod prawf di-dâl, cyfnod a gynigir am fis.

**Cofnod rhif 32 – Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir**
Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd E Dole ynghylch y materion canlynol:

- Mae'r Cyngor Sir yn ail-ddatblygu'r arosfan fws yn Rhosyderi.
- Cafwyd cyflwyniad yngylch ras OVO y Merched sy'n cael ei drefnu yn ystod y mis nesaf. Mae baneri a beic gwyrdd wedi'u darparu ar gyfer y gymuned er mwyn iddynt allu hyrwyddo'r digwyddiad.

Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd D Jones ynghylch y materion canlynol:

- Mae'r faner yn hyrwyddo'r ras OVO wedi'i harddangos yn Llechyfedach ac mewn ysgolion eraill yn y gymuned.
- Mae cyfarfod wedi'i drefnu dydd Gwener nesaf gyda Llywodraeth Cymru a'r Heddlu ger cylchfan Cross Hands i drafod ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn y lleoliad hwn.

**Minute no. 33 - General Correspondence**
**Resolved to** note the following general correspondence onto the minutes:-

| Writer | Subject |
|---|---|
| Carmarthenshire County Council | Memorandum of understanding – Child Burial Fees |
| Gwendraeth Group of Community Councils | Notice of next meeting |
| HAGS | Playground brochure |
| Carmarthenshire County Council | Code of Conduct Training |

**Minute no. 34 – Financial Assistance**
It was **resolved** to offer the following organisations a donation in accordance with its powers under Section 137 of the LGA 1972, which in the opinion of the Council is in the interests of the area or its inhabitants and will benefit them in a manner commensurate with the expenditure:

| | |
|---|---|
| Cross Hands Catchup | £200.00 |
| Bobath Cymru | £50.00 |

**Minute no. 35 – Code of Conduct Training**
It was noted that the following councillors had attended code of conduct training in the last financial year:
Cllrs D Jones, G Jones, L Davies, L Williams, K Thomas, M Davies and W James.

The Council received an invitation from the County Council to attend further training and the following councillors expressed an interest in the following respective courses:
10th July. Cllrs P Williams and S Acciaioli will attend this training.

16th July. Cllrs N Holman, D Snaith, and P Edwards will attend this meeting.

**Minute no. 36 – Suspending Standing Orders**
**Resolved to** suspend standing orders in order to continue the transaction of business beyond 9.00 pm.

**Minute no. 37 – Bowls Club**
The Council received a request from the Bowls Club for consent to provide additional storage for the club. **Resolved** to approve the temporary erection of a storage area on the decking at the front of the pavilion.

**Minute no. 38 – Food Bank**
The Clerk reported that he had received a request for Mr Wayne Erasmus for the Council to identify additional volunteers to assist with this project. Cllr K Thomas agreed to send out more information to members of the community to try and establish new volunteers.

**Cofnod rhif 33 – Gohebiaeth Gyffredinol**

**Penderfynwyd** nodi'r ohebiaeth gyffredinol ganlynol i'r cofnodion:-

| Awdur | Pwnc |
|---|---|
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – Ffioedd Claddu Plant |
| Grŵp y Gwendraeth o Gynghorau Cymuned | Blaen-rybudd o'r cyfarfod nesaf |
| HAGS | Catalog offer meysydd chwarae |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Hyfforddiant y Côd Ymddygiad |

**Cofnod rhif 34 – Cymorth Ariannol**
**Penderfynwyd** cynnig rhodd i'r sefydliadau canlynol yn unol â phwerau'r Cyngor o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 a fydd, ym marn y Cyngor, o les i'r ardal a'i thrigolion mewn ffordd sy'n gymesur â'r gwariant:

| | |
|---|---|
| Cross Hands Catchup | £200.00 |
| Bobath Cymru | £50.00 |

**Cofnod rhif 35 – Hyfforddiant y Côd Ymddygiad**
Nodwyd bod y Cynghorwyr canlynol wedi mynychu hyfforddiant y Côd Ymddygiad yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf:
Y Cynghorwyr D Jones, G Jones, L Davies, L Williams, K Thomas, M Davies a W James.

Roedd y Cyngor wedi derbyn gwahoddiad oddiwrth y Cyngor Sir I fynychu hyfforddiant pellach, ac roedd y Cynghorwyr canlynol wedi mynegi diddordeb yn mynychu'r cyrsiau dilynol:
Gorffennaf 10fed. Bydd y Cynghorwyr P Williams a S Acciaioli yn mynychu'r sesiwn hon.

Gorffennaf 16eg. Bydd y Cynghorwyr N Holman, D Snaith, a P Edwards yn mynychu'r cyfarfod hwn.

**Cofnod rhif 36 – Atal y Rheolau Sefydlog**
**Penderfynwyd** atal y rheolau sefydlog fel bod modd parhau i drafod busnes wedi 9.00 yh

**Cofnod rhif 37 – Clwb Bowlio**
Roedd y Cyngor wedi derbyn cais oddiwrth y Clwb Bowlio am ganiatâd i ddarparu gofod storio ychwanegol i'r clwb. **Penderfynwyd** cymeradwyo bod storfa dros-dro ychwanegol yn cael ei osod ar y decin o flaen y pafiliwn.

**Cofnod rhif 38 – Banc Bwyd**
Dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn cais oddiwrth Mr Wayne Erasmus yn gofyn i'r Cyngor adnabod gwirfoddolwyr ychwanegol i helpu gyda'r prosiect hwn. Cytunodd y Cynghorydd K Thomas i ddosbarthu gwybodaeth ychwanegol ymysg aelodau'r gymuned i geisio denu rhagor o wirfoddolwyr.

**Munte no. 39 – Councillor Reports**

Cllr L Davies asked if there is scope for the Council to cut the trees at the old Police Station. It was agreed to refer this matter to the members of the County Council. Cllr L Thomas informed the council that a bench at Heol y Bryn is in need of maintenance.

Cllr N Holman reported that the toilet seat in the men's toilet needs to be changed.

**Minute no. 40 – Council Photographs**

The Clerk was requested to organise a photographer to attend the next Council meeting to take the official council photograph.

**Meeting ended at 9.10pm**

**Signed ........................................................... Date ...................................**

**Cofnod rhif 39 – Adroddiadau'r Cynghorwyr**
Gofynnodd y Cynghorydd L Davies oes oedd modd i'r Cyngor dorri'r coed ger hen orsaf yr heddlu. Cytunwyd i gyfeirio'r mater hwn at aelodau'r Cyngor Sir.

Hysbysodd y Cynghorydd L Thomas y Cyngor bod angen cynnal a chadw mainc a leolir yn Heol y Bryn.

Dywedodd y Cynghorydd N Holman bod angen newid un o seddau'r toiledau yn nhoileldau'r dynion.

**Cofnod rhif 40 – Ffotograffau o'r Cyngor**

Gofynnwyd bod y Clerc yn trefnu bod ffotograffydd yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor i dynnu llun swyddogol o'r Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.10yh**

**Llofnod ......................................................  Dyddiad ..................................**